**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Panel Ariannu Allanol

**Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 6 Mehefin 2018 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J E Burtonshaw | R Francis-Davies | E J King |
| A S Lewis | M Thomas | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Spencer Martin | Cydlynydd Perthnasoedd y Sector Gwirfoddol |
| Gaynor Winsor | Cyfrifydd |
| Sandie Richards | Prif Gyfreithiwr |
| Chris Lindley | Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr |
| Jamie Rewbridge | Rheolwr Strategol Partneriaethau Hamdden, Iechyd a Lles |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M C Child, D H Hopkins, C E Lloyd a/ac J A Raynor

---

**48 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**49 Cofnodion:**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Panel Ariannu Allanol a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2018 fel cofnod cywir.

**50 Cyfoeth Naturiol Cymru - Rhaglen Partneriaeth AoHNE Gwyr 2018-2021.**

Cyflwynodd Arweinydd Tîm AoHNE adroddiad ‘Er Gwybodaeth” mewn perthynas â chynnig am gyllid gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer rhaglen Partneriaeth AoHNE Gŵyr 2018-2021.

Byddai’r rhaglen arfaethedig yn cyflwyno ystod eang o allbynnau gan Is-adran Cynllunio Strategol ac Amgylchedd Naturiol Cyngor Abertawe a’i bartneriaid; rydym wedi cynnal partneriaeth lwyddiannus a hir-sefydlog â Cyfoeth Naturiol Cymru (a’i gyrff blaenorol) am fwy na 25 o flynyddoedd. Mae Partneriaeth AoHNE Gŵyr yn gweithredu fel ymgynghorydd i Gyngor Abertawe a chorff rheoli’r AoHNE - mae Cyfoeth Naturiol Cymru’n rhan o’r bartneriaeth, gan sicrhau rheolaeth a monitro.

Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau i'r swyddog cyflwyno, a ymatebodd yn briodol.

Nodwyd, mewn perthynas â chwestiwn 4 ar dudalen 13 y ffurflen gais mai 'Ie' y dylai'r ateb fod (yn hytrach nag 'ie' a 'na').

Mynegodd y Cadeirydd bryder o ran swm yr arian cyfatebol a oedd ei angen gan Ddinas a Sir Abertawe o ystyried y cyfyngiadau ariannol presennol. Byddai'n cysylltu â'r Uwch-swyddogion mewn perthynas â'r broses cyllid grant.

Gellid hefyd drefnu cyfarfodydd "arbennig" y Panel Ariannu Allanol ar gyfer unrhyw geisiadau brys am gyllid i'w hystyried.

Nodwyd bod y Panel Ariannu Allanol eisoes wedi darparu cefnogaeth o ran llunio cais drafft ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru am gefnogaeth grant i gyflwyno Cynllun Rheoli AoHNE yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2018.

Yn ychwanegol, ailadroddwyd y goblygiadau cyllidebol a amlinellwyd yn yr adroddiad fel a ganlyn:

5.1 Mae'r grant yn defnyddio cyllideb refeniw bresennol i ddefnyddio cyllid allanol a fydd yn galluogi'r timau i ddarparu mwy o wasanaethau gyda chyn lleied o adnoddau'r cyngor (gall arian cyfatebol hefyd gynnwys amser staff a gwirfoddolwyr a chyllid allanol arall). Os cyfyngir ar gyllidebau'r cyngor, byddai'r cynlluniau gwaith yn cael eu diwygio er mwyn lleihau costau yn unol â hynny.

5.2 Mae'r cynnig hwn am gyllid yn helpu i gefnogi nifer bach o swyddi staff yn y Tîm Cadwraeth Natur.

5.3 Ni fyddai derbyn y cynnig am gyllid yn cynyddu rhwymedigaethau ariannol Cyngor Abertawe nawr neu yn y dyfodol.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad, ond nid ei gymeradwyo**.**

## 51 Cyfleusterau Chwaraeon Pob Tywydd Arfaethedig ar safle Lôn Sgeti/Heol Ashley.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad ar y cyd â'r Rheolwr Strategol, Hamdden, Partneriaethau, Iechyd a Lles er mwyn ceisio cymeradwyaeth i gyflwyno cynnig i'r Grŵp Cyfleusterau Hamdden Cydweithredol (sy'n cynrychioli Chwaraeon Cymru a chyrff llywodraethu rygbi, pêl-droed a hoci yng Nghymru) er mwyn datblygu meysydd chwaraeon artiffisial 3edd genhedlaeth ac i osod arwyneb hoci bob tywydd newydd yn Lôn Sgeti/Heol Ashley.

Gofynnodd y panel gwestiynau amrywiol yr ymatebwyd iddynt yn briodol gan Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth a'r Rheolwr Strategol, Hamdden, Partneriaethau, Iechyd a Lles.

**Penderfynwyd** bod y Panel Ariannu Allanol yn nodi'r goblygiadau a nodwyd yn yr adroddiad ac yn cymeradwyo cyflwyno achos busnes er mwyn denu hyd at werth £500,000 o gyllid.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.40 pm

**Cadeirydd**